

utk

Ungoed-Thomas & King
Cyfreithwyr • Solicitors

utk

Y Cei
Caerfyrddin
Sir Gaerfyrddin
SA31 3LN

The Quay
Carmarthen
Carmarthenshire
SA31 3LN

Rhif ffôn: 01267 237441
Ffacs: 01267 238317
E-bost: mail@utk.co.uk

Telephone: 01267 237441
Fax: 01267 238317
E-mail: mail@utk.co.uk

Lexcel
Practice Management Standard
Law Society **Accredited**

Ungoed-Thomas & King Limited
Cwmni cofrestredig yng Nghymru rhif: 2755783
Awdurdodwyd a rheoleiddiwyd gan yr
Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr rhif: 471940

Cadw Fferm y Teulu



www.utk.co.uk

DEALLTWRIAETH | YMDDIRIEDAETH | GWYBODAETH



Mae nifer o deuluoedd fferm wedi bod yn amaethu ers sawl cenhedlaeth gyda'r tad yn trosglwyddo'r fferm i'r mab neu'r ferch heb orfod gofidio am Dreth Etifeddiant. Ond, yn anffodus, nid felly mwyach. Bron yn ddieithriad heddiw, bydd y dyn treth yn penderfynu mai canran yn unig o werth y ffermdy (70% fel arfer) fydd yn ddi-dreth, ac weithiau dim ond canran hefyd o'r tir a'r adeiladau eraill fydd yn ddi-dreth. Ar ben hynny, heblaw mai'r sawl sy'n rhedeg y fferm o ddydd i ddydd sy'n byw yn y ffermdy, mae'n debygol na cheir unrhyw ryddhad o gwbl o ran Treth Etifeddiant mewn perthynas ag ef. Gall hynny fod yn broblem i ffermwyr oedrannus, nad ydynt bellach mewn sefyllfa i gyflawni dyletswyddau rheoli ymarferol ar y fferm.

Nid oes gan y mwyafrif o ffermydd ddigon o arian sbâr nac asedau eraill i dalu bil Treth Etifeddiant anferth. Am y rheswm hynny'n unig, mae'n hanfodol bod ffermwyr a'u teuluoedd yn cael cyngor cywir wrth gynllunio ar gyfer dyfodol y busnes gan sicrhau bod y fferm yn gallu cael ei throsglwyddo i'r genhedlaeth nesaf heb orfod ysgwyddo dyledion ychwanegol.

Mae yna bryderon eraill hefyd. Er enghraifft, os trosglwyddir y fferm i fab neu ferch, beth fydd yn digwydd os cânt ysgariad a bod risg o golli hyd at hanner yr asedau? A sut y dylid rhannu asedau'r teulu'n deg rhwng plentyn sydd wedi gweithio ar y fferm drwy ei oes a phlentyn arall nad yw wedi cael fawr i'w wneud â'r fferm?

Nid oes un ateb 'addas i bawb' i'r problemau hyn, ond mae gan Ungoed-Thomas & King ymgynghorwyr proffesiynol sy'n deall ac sy'n hen gyfarwydd â materion felly. Mae ganddynt ddealltwriaeth fanwl a chyfoes am y modd y mae treth etifeddiant yn gweithio mewn perthynas â ffermydd, a phrofiad o ddelio gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi a'r Prisiwr Dosbarth.

Yma yn Ungoed-Thomas & King, rydym wedi bod yn rhoi cyngor i'r gymuned amaethyddol am dros can mlynedd ac rydym wedi ennill cydnabyddiaeth mewn cyhoeddiadau cenedlaethol yn ogystal ag yn lleol am ein profiad yn y materion hyn. Rydym yn cydweithio'n agos gyda phobl broffesiynol eraill a sefydliadau amaethyddol, ac rydym yn awyddus i weld y diwydiant amaeth yn parhau dros genedlaethau i ddod. Os ydych chi yn ffermio ac yn pryderu ynghylch y materion hyn, cysylltwch â ni i wneud apwyntiad.

